

# amserbeibl

Storiau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran      Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Mathew 26: 14-16

a 36-50




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 26: 24

Gofynnwch am help  
i chwilio am  
yr adnod hon.

## Stori I Stori'r Pasg - Jwdas

Roedd yr amser ar ddod pan fyddai'r Arglwydd lesu yn cael Ei arrestio a'i osod ar groes. Mae'n drist adrodd i un o'i ddeuddeg disgybl droi yn Ei erbyn, a'i roi yn nwyo Ei elynion.

**C** Defnyddiwch  
yr wyddor  
luniau i sillafu  
enw llawn y  
disgybl hwn.



4

Roedd Jwdas mor drachwantus am arian nes iddo benderfynu bradychu lesu. Gwyddai y byddai prif offeiriad yr Iddewon yn rhoi arian iddo am wneud hyn. Cafodd 30 o ddarnau arian ganddynt, ac addawodd Jwdas eu harwain i'r lle'r oedd lesu.

**C** Pwy dalodd yr arian i Jwdas?

Y p \_\_\_ f

off \_\_\_\_\_ d.



4

**C** Sawl darn o arian gafodd  
Jwdas? Ysgrifennwch yr  
ateb ar y god (sach)



2

Un noson, aeth yr Arglwydd lesu a'i holl ddisgyblion, heblaw am Jwdas, i le o'r enw Gethsemane. Gardd o goed olewydd oedd hon wrth ymwl Jerwsalem. Yn yr ardd, gofynnodd yr Arglwydd lesu i'w ddisgyblion gadw'n effro a gweddio. Aeth Yntau ymhellach i mewn i'r ardd a dechreuodd weddio ar Ei Dad. Roedd y disgyblion yn mynnu syrthio i gysgu! Dro ar ôl tro, daeth lesu yn Ei ôl a'u deffro!

### C Defnyddiwch y cliwiau hyn i gwblhau'r Pos Geiriau.

6

1. Enw'r ardd.
2. Dechreuodd yr Arglwydd lesu \_\_\_\_\_.
3. Roedd llawer o'r rhain yn yr ardd \_\_\_\_\_.
4. NID aeth y disgybl hwn gyda'r lleill i'r ardd. \_\_\_\_\_.
5. Syrthiodd y disgyblion i \_\_\_\_\_.
6. Roedd hi'n dechrau \_\_\_\_\_ pan aethant i mewn i'r ardd.



6

Cyn hir, cyrhaeddodd Jwdas! Daeth â nifer o ddynion oedd yn elynion i lesu gydag e. Roedden nhw'n cario cleddyfau a phastynau. Roedd Jwdas wedi dweud wrthynt y byddai'n cusaru lesu, yn ôl yr arfer. Hyd yn oed yn y tywyllwch, byddai hynny'n dangos i'r milwyr pa berson i'w arrestio. Digwyddodd y cyfan mewn ychydig eiliadau. Wrth i Jwdas gusanu lesu, dechreuodd y dyrfa gau amdano a'i gipio. Dihangodd y disgyblion, ac arweiniwyd lesu ymaith yn garcharor.

### C Ysgrifennwch GWIR neu ANWIR ar ôl y brawddegau hyn:-

1. Daeth Jwdas ar ei ben ei hun i ardd Gethsemane. ....
2. Bradychodd Jwdas yr Arglwydd lesu â chusan. ....
3. Roedd y dyrfa'n cario cleddyfau. ....
4. Dechreuodd pob un o'r disgyblion ymladd i amddiffyn lesu. ....

4



Gwnaeth Jwdas gamgymeriad mawr pan fradychodd lesu. Mae'n gamgymeriad mawr bob tro gadael i rywbeith arall (fel arian neu ffrindiau) gymryd y lle ddylai fod gan lesu yn ein bywydau ni. Peidiwch â'i 'werthu' Ef yn gyfnewid am unrhyw beth. Yn hytrach, dylech YMDDIRIED Ynddy a'i DDILYN Ef bob dydd.



# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
Mathew 27:1-2  
ac 11-31



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 27:22

Gofynnwch am help  
i chwilio am  
yr adnod hon.

## Stori 2 Stori'r Pasg – Pilat

Yn fuan wedi Iddo gael Ei arestio, aeth y milwyr ag lesu i sefyll Ei brawf gerbron Pilat. Hwn oedd y Rhaglaw Rhufeinig oedd yn rheoli gwlaid yr Iddewon bryd hynny.

### C Llanwch y bylchau gyda'r llythrennau cywir.

P \_\_\_\_\_ fuodd yn holi lesu.

Roedd ef yn Rh \_\_\_\_\_ I \_\_\_\_\_ Rh \_\_\_\_\_ f \_\_\_\_\_ n \_\_\_\_\_ g.

Wedi i Pilat holi lesu, roedd yn teimlo'n siŵr nad oedd lesu yn euog. Doedd e ddim am anfon lesu i farw ar groesbren, felly cynigiodd ryddhau un carcharor – am ei bod yn wyl y Pasg, sef un o ddathliadau pwysicaf yr Iddewon. Dywedodd y gallai'r Iddewon ddewis p'un fyddai'n cael ei ryddhau. Ai lesu fyddai hwnnw neu ddyn arall oedd wedi gwneud llawer o bethau drwg?



3

### C Defnyddiwch yr wyddor luniau i gael gwybod enw'r carcharor arall.



4

Roedd Pilat yn gobeithio y bydden nhw'n dewis lesu, ond wnaethon nhw ddim! Mynnodd y bobl y dylai lesu farw, ac y dylai'r dyn arall gael ei ryddhau.

### C Rhowch (✓) wrth ymyl y brawddegau CYWIR a (✗) wrth ymyl y rhai ANGHYWIR:-

1. Roedd Pilat yn sicr fod lesu yn euog. ....
2. Rhyddhaodd Pilat yr holl garcharorion dros wyl y Pasg. ....
3. Rhyddhawyd Barabbas. ....
4. Roedd Barabbas wedi gwneud llawer o bethau drwg. ....

4

Ceisiodd Pilat berswadio'r Iddewon i newid eu meddwl, ond doedden nhw ddim yn fodlon gwrando arno. Yna, gorchynnodd y Rhaglaw y dylai lesu gael Ei fflangelli (chwipio) ac wedyn Ei hongian ar groes.

Cyn Iddo gael Ei groeshoelio, bu'r milwyr yn greulon iawn wrth lesu. Aethon nhw ati i'w wisgo mewn clogyn ysgarlad a dodi coron o ddrain am Ei ben. Buon nhw'n Ei watwar, yn poeri Arno ac yn Ei daro hefyd cyn Ei hoelio ar groes.

**C Llanwch y bylchau â'r geiriau cywir, a  
Iliiwch y lluniau.**

**Wedi i'r milwyr Ei wisgo mewn**



\_\_\_\_\_ ,

a rhoi / \_\_\_\_\_ ,



am Ei ben,

hoeliwyd lesu ar \_\_\_\_\_ .



9

Wyddoch chi bod yr Arglwydd lesu wedi marw ar y groes dros ein pechodau ni? Doedd dim un ffodd arall i ni gael maddeuant a'n paratoi ar gyfer y Nefoedd! Dioddefodd lesu yn ein lle am Ei fod yn ein caru gymaint!

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
Mathew 27: 57-66



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 28:6

Gofynnwch am help  
i chwilio am  
yr adnod hon.

## Stori 3 Stori'r Pasg – Joseff

Bu farw lesu ar y groes. Yr union noson honno, aeth dyn o'r enw Joseff o dref Arimathea i weld Pilat. Roedd Joseff yn ddyn cyfoethog ac roedd yn credu yn yr Arglwydd lesu. Erfyniodd ar Pilat am gorff lesu, er mwyn iddo Ei gladdu. Cafodd ganiatâd gan Pilat.


### C Llanwch y bylchau:-

Aeth Joseff at P \_\_\_\_\_,

i ofyn am g \_\_\_\_\_ I \_\_\_\_\_.

Roedd am Ei g \_\_\_\_\_ .

Cyn gynted ag y cafodd Joseff y corff, rhoddodd liain glân amdano a'i osod yn ei fedd newydd ef ei hun. Roedd y bedd hwn fel ogof fechan wedi'i naddu yn y graig. Rholiodd faen mawr ar draws y fynedfa. Daeth Mair Magdalen a rhai gwragedd eraill i weld beth roedd Joseff yn ei wneud.



4

### C Cwblhewch y Pos Geiriau, gan ddefnyddio'r cliwiau hyn.

1. Beth ddododd Joseff ar draws y fynedfa? \_\_\_\_\_
2. Roedd y bedd wedi'i naddu mewn \_\_\_\_\_.
3. Roedd y wraig hon yn gwyllo Joseff.
4. Aeth Joseff ati i ddodi \_\_\_\_\_ lesu yn y bedd.

I			E	
2				G
3	M			
4			Ff	


4

Roedd yr Iddewon yn meddwl y byddai disgylion yr Arglwydd lesu yn dod liw nos ac yn dwyn Ei gorff. Yna, efallai y bydden nhw'n ceisio darbwyllo pobl Ei fod wedi codi'n fyw o'r bedd! Felly, dyma nhw'n gofyn i Pilat anfon milwyr i warchod y bedd.

**C Tanlinellwch y geiriau cywir.**

Bu'r (**disgyblion, milwyr, Iddewon**) yn gwarchod y (**groes, tŷ, bedd**) er mwyn gwneud yn siŵr na fyddai neb yn (**Ilosgi, addoli, dwyn**) corff yr Arglwydd lesu.

3



**C Lliwiwch y darlun.**

5

Dyma'r newyddion da - i Dduw, drwy Ei allu rhyfeddol, godi'r Arglwydd lesu o farw. Na, chafodd Ei gorff mo'i ddwlyn. Wnaeth Ei gorff DDIM pydru. Daeth Duw ag lesu allan o'r bedd yn FYW! Mae hynny'n profi mor fodlon oedd Duw gyda'r hyn roedd yr Arglwydd lesu wedi ei wneud, pan fu Ef farw dros ein pechodau. Mae'n profi hefyd mai Ef yn wir yw Mab Duw. Mae lesu am i chi ymddiried ynddo Ef fel eich Gwaredrwr personol.

**C Lliwiwch eiriau'r angel, o'r Adnod Allweddol.**

"**Nid yw ef yma,  
oherwydd y mae  
wedi ei gyfodi!**"

Mathew 28: 6

4

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH  
Luc 24: 13-35



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Luc 24: 26

Gofynnwch am help  
i chwilio am  
yr adnod hon.

## Stori 4 Stori'r Pasg – Y ddau deithiwr

Roedd dau o ddisgyblion yr Aргlywydd lesu yn cerdded ar y ffordd o Jerwsalem i bentref Emaus, rhyw saith milltir i ffwrdd. Roedden nhw'n teimlo'n drist ofnadwy oherwydd roedden nhw'n gwybod bod eu Meistr, yr Aргlywydd lesu, wedi marw ar y groes. Doedden nhw ddim hyd yma wedi clywed y newyddion da Amdano - Ei fod yn fyw unwaith eto!


**C Ar y map, ysgrifennwch enwau'r ddau le sy'n cael eu henwi yn y stori.**

Wrth i'r ddau gyd-gerdded, roedden nhw'n siarad am yr hyn ddigwyddodd i lesu. Roedd y cyfan yn gymaint o siom; roedden nhw wedi teimlo mor siŵr mai Ef oedd y Crist, neu'r Gwaredwr, roedd Duw wedi Ei addo. Ond nawr, roedd Ef wedi marw! (O leiaf, dyna roedden nhw'n ei feddwl!) Doedden nhw ddim yn gallu deall pam roedd hyn i gyd wedi digwydd.


**C Chwiliwch am y llythrennau cywir i gwblhau'r geiriau hyn:-**

Roedd y \_\_\_\_\_ ddisgybl yn \_\_\_\_\_ oherwydd roedd yr Aргlywydd lesu wedi Ei \_\_\_\_\_.

Doedden nhw ddim yn gallu \_\_\_\_\_ pam fod rhaid Iddo \_\_\_\_\_.



4



Yn sydyn, wrth i'r ddau gerdded, ymunodd Dieithryn â nhw. Am ryw reswm, wydden nhw ddim mai lesu oedd Ef! Gofynnodd iddyn nhw pam eu bod yn edrych mor drist. Dyma'r ddau yn Ei ateb gan adrodd yr holl hanes am lesu yn cael Ei ladd! Roedd hyn i gyd, meddent, wedi dryllio pob gobaith oedd ganddynt mai Ef oedd y Crist. Dyna'r rheswm pam eu bod mor drist a chynhyrfus.

5

Roedd y Dieithryn yn gallu eu helpu! Esboniodd drwy ddyfynnu llyfrau'r Hen Destament fod yn rhaid i Grist ddioddef a marw. Doedd dim un ffordd arall o achub pobl rhag eu pechodau.

**C Lliwiwch y geiriau hyn.**

# “Rhaid i’r Meseia ddioddef.”


6

**Luc 24: 26**

Pan gyrhaeddon nhw Emaus, dyma’r ddau yn Ei wahodd i’w tŷ. Paratowyd bwyd, ac wrth iddynt ddechrau bwyta, dyma nhw’n Ei adnabod. Iesu oedd Hwn, eu Harglywydd a’u Meistr! Mewn eiliad, diflannodd Iesu o’u golwg, ond roedd y ddau yn gwbl siŵr o’r cyfan Amdano! Roedd yr union Berson Hwn a fu farw ar y groes wedi atgyfodi’n fyw o’r bedd! Aeth y ddau ar frys i Jerwsalem i ddweud wrth y lleill eu bod wedi gweld Iesu - yn fyw!

**C Cwblhewch y Croesair gan ddefnyddio’r cliwiau hyn.**

1. Teitl arall am y “Crist”.
2. Ymunodd Ef â nhw ar y \_\_\_\_\_
3. Sylweddolodd y ddau mai \_\_\_\_\_ oedd y Dieithryn.
4. Roedd yn rhaid Iddo Ef farw i’n hachub ni rhag ein \_\_\_\_\_.
5. Enw’r pentref lle’r oedd cartref y ddau deithiwr.



5

Drosom Ni y bu Iesu farw. Drosom Ni y daeth Ef o’r bedd yn fyw. Rhaid i bob un ohonom fod yn wir edifar am ein pechodau, ac ymddiried Ynddy Ef fel ein Gwaredwr. Pam na wnewch CHI hynny’r funud hon?

**cyfanswm**

Marciau  
(i’w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 C4

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, PO Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i’w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i 01202 873500 am fyw o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i’w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhodion yn daladwy i ‘Amserbeibl’) cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120